

Cofion

- Gyda thristwch y daeth y newydd heno am farwolaeth Mrs Kate Davies (Llansannan), un oedd â gwên dawel, groesawus bob amser. Estynnwn ein cydymdeimlad cywiraf â'r plant – Myrfyn, Cledwyn, Elwyn, Susan a Llinos, a gweddill y teulu yn eu profedigaeth. Gweddïwn y byddant oll yn adnabod Duw yn ei holl ddaioni yn cysgodi drostynt yn eu galar a'u hiraeth am un mor annwyl.
- Mae Robert Henry Roberts (Cefn Meiriadog) yn Ysbyty Arrowe Park, ac Emyr Hughes (Groes) yn Ysbyty Glan Clwyd – y ddau wedi cael llawdriniaeth yn ystod yr wythnos. Anfonwn ein cofion atynt, a'n dymuniadau gorau am adferiad iechyd llwyr a buan. Parhawn i gofio hefyd am Morfudd Williams (Henllan) sydd wedi bod yn Ysbyty Glan Clwyd ers rhai wythnosau erbyn hyn, a Gwenfyl Williams (Tanyfron) sydd bellach yn cael gofal yn Ysbyty Rhuthun. Cyflwynwn hwythau, ac eraill o'r Ofalaeth sydd heb fod yn dda eu hiechyd, i ofal yr Arglwydd, gan hyderu y byddant yn cael eu diogelu a'u cadw'r dyddiau hyn.

Rhifyn Olaf y Tymor Hwn

Un rhifyn arall o Llais Bro Aled fydd yn cael ei gyhoeddi y tymor hwn, felly anfonwch fanylion unrhyw gyfarchion arbennig neu gyfarfodydd sydd i ddigwydd o hyn tan ddechrau Medi erbyn nos Fercher nesaf, os gwelwch yn dda.

I ddod

- **TAITH GERDDED HAMDDENOL** – nos Fercher, Gorffennaf 27ain. Cyfarfod ger Capel Peniel am 6.30. Croeso i bawb!
- **CYRSIAU HAF COLEG Y BALA:**
 - **Cwrs Ieuentid i flynyddoedd 7 – 11:** Gorffennaf 25-29
 - **Anhrefn Awst 8 – 12 oed:** Awst 8-11
 - **Souled Out 15+ oed:** Awst 13-18

Cofiwch bod £20 o ostyngiad i bob unigolyn fydd yn mynd i'r Coleg, diolch i haelioni Ymddiriedolaeth Robert Roberts ac Eglwysi Bro Aled. Bydd angen i chi anfon ffurflen archebu ynghyd â blaendâl i sicrhau lle.

 - **Aduniad Llanw:** Medi 23-24
- **OEDFA GOLLWNG ANEURIN O'I DDYLETSWYDDAU FEL GWEINIDOG YM MRO ALED** nos Sul, Medi 11eg am 6.00.
- **IS-BWYLLGOR CHWIORYDD HENADURIAETH DYFFRYN CLWYD** – Cynhelir y cyfarfod nesaf nos Fercher, Medi 14eg yng Nghapel Clwyd Street, Y Rhyl a'r siaradwraig fydd Mrs Cheryl Williams.
- **CYFARFOD ORDEINIO A SEFYDLU DR RHODRI GLYN YN WEINIDOG AR EGLWYSI BRO ALED** prynhawn dydd Sadwrn, Medi 17eg am 2.00.



Llais Bro Aled

Dydd Sul, 17^{eg} Gorffennaf 2016

Darllenid y Dydd

Eseia 35: 1-10

(BCND tud.650 / BCN tud.593)

eglwysibroaled.com

rhaglendorcas.com

llanw.org

hyfforddiantdawn.com

Bore da a chroeso i'r oedfaon heddiw. Mae'n wythnos y Sioe Fawr a dymuniadau gorau i bawb sydd ar eu ffordd yno, a phob llwyddiant i chi.

Cafodd Cymanfa Gyffredinol EBC ei chynnal yr wythnos hon yn Llandudno a thestun balchder i ni fel Bro oedd y ffaith mai Dr Andras Iago fu'n traddodi'r Ddarlith Hanes yno ar y testun 'Y Parch. Thomas Jones, Dinbych a'r Meddwl Methodistaidd'. Andras ydi'r person ieuengaf i gael y fraint o draddodi'r Ddarlith enwog hon ac fe wnaeth hynny yn feistrolgar a diddorol.

Un o Caerwys, Sir y Fflint, oedd Thomas Jones (1756–1820) a chafodd ei ddefnyddio gan Dduw i arwain a meithrin llawer yn y Ffydd Gristnogol Brotestannaidd, a chadw, fel y dangosodd Andras, galon y gred honno yn wyneb eithafiaeth diwinyddol arweinwyr fel John Elias. Credai hwnnw ar y pryd mewn lawn cytbwys – sef y gred fod gwerth iawnol marwolaeth Iesu wedi bod yn werth union gyfartal â phwysau'r maddeuant oedd ei angen i brynu'r rhai a fyddai'n derbyn bywyd tragwyddol.

Doedd Thomas Jones, na Thomas Charles, yn meddwl am yr lawn yn y termau hynny, ond yn rhyfeddu at fawredd cariad Duw yn rhoi ei Fab yn lawn dros ein pechodau ni. Gweld Iesu yn lawn: a gan nad yw'n bosibl pwyso na rhoi terfyn ar Berson Crist, nid oes modd felly rhoi terfyn penodol ar yr lawn.

Er hynny mae yna werth neilltuol i'r lawn – hynny yw, mae'r lawn yn gorfod bod yn effeithiol yn neilltuol i bob unigolyn. Mae'n rhaid i ni dderbyn y maddeuant, a chael prawf ohono, ein hunain, fesul un, yn neilltuol bersonol 'i mi'.

Rhoddodd Andras hefyd ddarlun hyfryd o'r meddwl Methodistaidd. Tasg anodd ddychrynlyd ydi disgrifio meddwl unrhyw un neu fudiad. Ond y darlun a ddewisiodd Andras oedd y darlun o'r meddwl fel cyfres o ystafelloedd a dodrefn pob ystafell yn cynrychioli pwyslais arbennig, ffurfiannol i fywyd yr unigolyn neu'r Mudiad. Disgrifiodd ddwy ystafell yn achos TJ, sef yr ystafell 'Hanesyddol' a'r ystafell 'Uniongredded'. Gwelai TJ nad rhywbeth newydd nac heresiol oedd profiad y diwygiad a thwf y seiadau Methodistaidd; dyma lle'r oedd pobl yn moli'r Arglwydd am iddo'u cofio a'u cadw, am ei gariad a'i ras, ac am werth yr lawn. Dyma mae'r Eglwys wedi ei wneud o'r cychwyn, a thrwy holl gyfnodau hanes dyma sut y mae Duw yn adnewyddu ei Eglwys. Mae hyn yn wir yn ein cyfnod ni hefyd.

Yn yr ail ystafell mae uniongredded TJ yn canoli ar y datguddiad sydd yn y Beibl o berson a gwaith Iesu Grist. Dyma galon y meddwl Methodistaidd, a'n traddodiad ni – trwy'r Beibl, a datguddiad yr Ysbryd Glân ein bod yn cael dod, trwy ras Duw, i adnabod Iesu'n bersonol a'i addoli'n Arglwydd.

(trosodd)

Dydi'r llanw o gariad a gras sydd gan Dduw tuag atom ddim yn lleihau nac yn gwagu – mae ar gael pob awr o bob dydd a nos yn ei lawnder gogoneddus i bawb sy'n dod yn edifeiriol at Dduw. 'Ef yw'r lawn fu rhwng y lladron'. Diolch iddo a diolch i Andras am ein goleuo.

DILYNWCH NI: @eglwysibroaled 

Aneurin

Cyhoeddiadau

Y Fro

- Sul yma – 17^{eg} • Cynhelir **Oedfa'r Fro** yn Llansannan am 6.00. Arweinir yr oedfa gan Alun Jones a bydd Aneurin yn pregethu.
- Mawrth – 19^{eg} • **Cyfarfod Gweddi'r Fro** yn Groes am 7.30.
- Sul nesaf – 24^{ain} • Cynhelir **Oedfa'r Fro** yn Llansannan am 6.00. Arweinir yr oedfa gan Huw Tan y Graig a bydd Gwion yn pregethu.

Llanfair a Chefn Meiriadog

- Sul yma – 17^{eg} Bydd Gwion yn arwain oedfa i'r daith yng Nghefn Meiriadog am 10.30. Cynhelir Ysgol Sul yn Llanfair am 11.00 ac yng Nghefn Meiriadog am 2.00.
- Sul nesaf – 24^{ain} Cynhelir Cyfarfod Gweddi yn Llanfair am 10.00 a bydd Ysgol Sul am 11.00. Bydd oedfa wedi ei threfnu yng Nghefn Meiriadog am 10.30 yng nghwmni Julie Regan ac aelodau Eglwys Sinan, a bydd yr Ysgol Sul am 2.00.

Llansannan

- Sul yma – 17^{eg} Bydd y Parch. Gwyndaf Jones yn arwain oedfa am 10.00 a bydd Ysgol Sul y plant yn cydreddeg. Bydd Ysgol Sul yr oedolion yn dilyn am 11.10.
- Sul nesaf – 24^{ain} Bydd Aneurin yn arwain oedfa am 10.00 a bydd Ysgol Sul y plant yn cydreddeg. Yn ystod yr oedfa, bydd dau aelod o'r Henaduriaeth yn cymryd llais aelodau Eglwys Unedig Llansannan ynglŷn ag uno'r gynulleidfa gyda chynulleidfa Eglwys Tanyfron. Bydd Ysgol Sul yr oedolion yn dilyn am 11.10.

Llanefydd a Chefn Berain

- Sul yma – 17^{eg} Bydd Gwion yn arwain oedfa i'r daith yn Llanefydd am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Llanefydd a Chefn Berain am 10.00.
- Sul nesaf – 24^{ain} Cynhelir Cyfarfod Gweddi yn Llanefydd a Chefn Berain am 10.00.

Cyhoeddiadau

Tanyfron a Nantglyn

- Sul yma – 17^{eg} Bydd y Parch. Gwyndaf Jones yn arwain oedfa i'r daith yn Nantglyn am 2.00.
- Sul nesaf – 24^{ain} Bydd Aneurin yn arwain oedfa i'r daith yn Nantglyn am 2.00. Yn ystod yr oedfa, bydd dau aelod o'r Henaduriaeth yn cymryd llais aelodau Eglwys Tanyfron ynglŷn ag uno'r gynulleidfa gyda chynulleidfa Eglwys Unedig Llansannan.











Saron a Pheniel

- Sul yma – 17^{eg} Bydd Aneurin yn arwain oedfa i'r daith yn Saron am 10.00 a bydd yr Ysgol Sul yn cydreddeg. Cynhelir Ysgol Sul ym Mheniel am 2.00.
- Sul nesaf – 24^{ain} Bydd Gwion yn arwain oedfa i'r daith ym Mheniel am 10.00. Cynhelir Ysgol Sul ym Mheniel am 2.00.

Henllan a Groes

- Sul yma – 17^{eg} Bydd Aneurin yn arwain oedfa i'r daith yn Groes am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Henllan ac yn Groes am 10.00.
- Sul nesaf – 24^{ain} Bydd Gwion yn arwain oedfa i'r daith yn Henllan am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Groes a Henllan am 10.00.

Manylion Cyswilt

- Aneurin –  aneurin@eglwysibroaled.com  01745 870618  07775 701102
 - Gwion –  gwion@eglwysibroaled.com  01745 870522  07849 591163
 - Sarah –  sarah@eglwysibroaled.com  01745 870522  07900 308461
 - Mair –  mair@eglwysibroaled.com  01745 870632  07900 627536
- Cyhoeddiadau i'w hanfon i Mair erbyn 9.00 nos Fercher, os gwelwch yn dda.*

Eglwys Bro Aled

Ein nod yw tystio i efengyl Duw, yn effeithiol ac yn gyfoes, drwy gyfeirio'n holl adnoddau i ddyrchafu Iesu, a chyrraedd ein cymunedau.

Darlleniad Wythnos Nesaf

Eseia 45: 1-7 (BCND tud.661 / BCN tud.603)